# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 25-03-10

**Presennol:** Y Cynghorydd Gwilym O. Williams (Cadeirydd);
Y Cynghorwyr J.R. Jones, Dewi Llewelyn

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb); Amlyn ab Iorwerth, (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a oedd yn bresennol yn y Cyfarfod:**

**Ymgeisydd:** Mr David Williams (cynrychiolydd ar ran yr ymgeisydd)

**Cynrychiolydd yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu)

**Cynrychiolydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru:** Mr Simon Talbot

**Gwrthwynebwyr:** Mr John Tyrrell, Ms Gilly Harradance a Mr Jonathan Smith (cyfreithiwr ar ran Cofi Roc)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd W. Roy Owen (aelod lleol)
.

**1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – NEUADD Y FARCHNAD, STRYD Y PLAS, CAERNARFON**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ar ran Neuadd y Farchnad, Stryd y Plas, Caernarfon am drwydded eiddo i ganiatáu dramau, ffilmiau, cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi ei recordio a dawnsio rhwng 09.00 a 24.00, bocsio neu wreslo rhwng 09.00 a 23.00, cyflenwi bwyd poeth rhwng 23.00 a 01.00, cyflenwi alcohol rhwng 09.00 a 01.00, gyda'r eiddo'n agored i'r cyhoedd rhwng 08.00 a 01.30. Bydd yr oriau hyn yn berthnasol i bob diwrnod o'r wythnos.

Nododd y derbyniwyd ymateb gan yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân a'r Adran Iechyd Amgylchedd yn cynnig sylwadau/amodau a nifer o lythyrau'n gwrthwynebu'r cais. Nid oedd gan Gyngor Tref Caernarfon sylwadau i'w cyflwyno ar y cais.

Tynnwyd sylw gan y swyddog y canfuwyd cymhlethdod gyda'r dyddiadau ymgynghori ar y rhybuddion yn hysbysebu'r cais, sef bod y rhybudd a osodwyd ar y safle'n gwahodd sylwadau erbyn 5 Mawrth 2010 ond bod y rhybudd a ymddangosodd yn y papur newydd yn gwahodd sylwadau erbyn 11 Mawrth 2010. Trafododd y mater gyda'r Swyddog Priodoldeb pryd y penderfynwyd parhau â'r cais er gweld os y derbynnir unrhyw ymatebion rhwng y cyfnod 5-11 Mawrth 2010. 'Roedd o'r farn na dderbyniwyd unrhyw ymateb yn ystod y cyfnod hwn ond tynnwyd ei sylw gan y cyfreithiwr a oedd yn gweithredu ar ran Cofi Roc yr anfonwyd un llythyr trwy law i Adran Drwyddedu'r Cyngor, gan berchennog eiddo cyfagos, ond nid oedd ef fel Rheolwr Trwyddedu'n ymwybodol am fodolaeth y llythyr hwnnw a oedd yn cadarnhau gwrthwynebiad gwreiddiol i'r cais. Yn wyneb hynny, ni wahoddwyd y gwrthwynebydd i'r pwyllgor gan nad oedd yn ymwybodol o'r llythyr. Gofynnodd am farn yr aelodau ar hyn cyn mynd rhagddo â'r mater.

Nododd y Swyddog Priodoldeb bod y ffaith na anfonwyd y llythyr o wrthwynebiad a dderbyniwyd yn ystod y cofnod rhwng 5-11 Mawrth 2010 i'r aelodau gyda rhaglen y pwyllgor a hefyd nad

oedd y gwrthwynebydd wedi cael gwybodaeth am ddyddiad y pwyllgor yn peri cryn bryder i'r aelodau ynglyn â'r priodoldeb o fynd rhagddo â'r cais heddiw.

Adroddodd y cyfreithiwr a oedd yn gweithredu ar ran Cofi Roc, iddo derbyn llythyr gan y gwrthwynebydd y cyfeirir ati uchod, yn cadarnhau nad oedd wedi derbyn gwybodaeth am y cyfarfod heddiw ac iddi glywed amdano gan ei gleient y diwrnod blaenorol. Oherwydd ymrwymiadau parthed ei busnes, nid oedd yn bosibl iddi fynychu'r cyfarfod heddiw. Nododd ei bod yn ofynnol dan y rheoliadau trwyddedu bod unrhyw berson sy'n cyflwyno sylwadau ar gais o'r fath yn cael gwybodaeth am ddyddiad y gwrandawiad o fewn saith diwrnod i ddyddiad y cyfarfod. Er tegwch i'r gwrthwynebydd, fe ddylai ei llythyr yn rhoddi sylwadau ar y cais fod wedi ei anfon i'r aelodau gyda rhaglen y cyfarfod.

Cadarnhaodd cynrychiolydd ar ran yr ymgeisydd y newidiwyd trwy rhyw amryfusedd y dyddiad yn y rhybudd yn hysbysebu'r cais a ymddangosodd yn y papur newydd o 5 Mawrth i 11 Mawrth 2010.

Gadawodd cynrychiolydd yr ymgeisydd, cynrychiolydd yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub, y Rheolwr Trwyddedu a'r gwrthwynebwyr y cyfarfod er rhoddi cyfle i aelodau'r is-bwyllgor drafod pa gamau i'w cymryd yn wyneb yr amryfusedd a achoswyd ynglyn â hysbysebu'r cais.

**PENDERFYNWYD**
**a) Yn wyneb y ffaith nad yw llythyr y gwrthwynebydd y cyfeirir ati uchod wedi ei anfon i'r aelodau gyda rhaglen y pwyllgor ac nad yw'r person hwnnw'n gwybod am y gwrandawiad ac yn dymuno mynychu, cytunwyd na fyddai'n briodol i ystyried y cais heddiw.**
**b) Oherwydd y diffyg eglurder parthed y dyddiadau gwahanol ar y rhybuddion yn hysbysebu'r cais, ac er sicrhau bod pawb sydd â hawl i roddi sylwadau yn cael gwneud hynny, y dylid ail-hysbysebu'r cais.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb yr anfonir llythyr i bawb yn ystod y dyddiau nesaf yn cadarnhau penderfyniad yr is-bwyllgor, gan eu hysbysu o'r hawl a'r drefn i apelio yn erbyn dyfarniad yr is-bwyllgor.
.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 11.15am